



CFfi CYMRU WALES YFC

Diwrnod Maes / Field Day
Cae Sioe Môn
Ynys Môn Showground

29ain o Ebrill 2017
29th April 2017

Cystadlaethau a Rheolau
Competitions and Rules





CYNNWYS | CONTENTS

CYSTADLEUAETH COMPETITION	RHIF TUDALEN PAGE NUMBER
CYSTADLEUAETH BEIRNIAD STOC Y FLWYDDYN (IAU) STOCKJUDGE OF THE YEAR COMPETITION (JUNIOR)	3
CYSTADLEUAETH STOCMON Y FLWYDDYN (HŶN) STOCKMAN OF THE YEAR COMPETITION (SENIOR)	6
CODI FFENS - FENCE ERECTING	9
EFFEITHLONRWYDD Â DIOGELWCH EFFICIENCY WITH SAFETY INCORPORATING AN ATV ELEMENT	13
CODI FFENS IAU JUNIOR FENCE ERECTING	19
ARDDANGOSFA CIWB CUBE EXHIBITION	23
HELFA NATUR IAU JUNIOR NATURE TRAIL	26

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

RHEOLAU 2016-2017 RULES

DIWRNOD GWAITH MAES | FIELD DAY



**WALES YFC YOUNG STOCKMAN OF THE YEAR
CYSTADLEUAETH BEIRNIAD STOC Y FLWYDDYN (IAU)**

LLEOLIAD

Cynhelir y Rownd Derfynol ar Faes Sioe Môn ar 29 Ebrill 2017.

VENUE

The Final will be held at the Ynys Mon Showground on the 29th April, 2017.

CYNRYCHIOLAETH

Gall un tîm o bedwar o bob sir gystadlu yn rownd derfynol Cymru.

REPRESENTATION

Counties may enter one team of four members for the Wales final.

CYMHWYSTRA

Bydd rhaid i'r cystadleuydd fod yn 18 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2016 ac yn aelodau llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

ELIGIBILITY

Competitors must be 18 years or under on 1st September 2016 and full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC. Competitors will be required to show their membership cards.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

EILYDDION

Os bydd cystadleuydd sydd wedi cyrraedd y Rownd Derfynol yn gorfod tynnu'n ôl o'r gystadleuaeth, yna bydd y cystadleuydd yn y safle nesaf (sy'n gysylltiedig â FfCCFFI) yn cynrychioli Cymru.

SUBSTITUTION

If the competitor going through to the National Final has to withdraw from the competition, then the next highest placed competitor (affiliated to NFYFC) will represent Wales.

TREFN

Bydd angen i gystadleuwyr farnu pedwar cylch o stocpp (4 o Wartheg Godro, 4 o Wartheg Tewion, 4 o Wŷn Tewion a 4 o Foch Tewion).

PROCEDURE

Competitors will be required to judge four rings of stock (4 Dairy Cows, 4 Butchers Cattle, 4 4 x Butchers Lambs and 4 Butchers Pigs).

Bydd rhaid i bob aelodau gyflwyno'i resymau ynghylch y pedwar cylch o stoc.

Each member will give reasons on all four rings of stock.

Caiff yr anifeiliaid ym mhob cylch eu dynodi yn A, B, X, Y.

Animals in each ring will be designated A, B, X, Y.

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ateb holiadur amlddewis syml ynghylch Iechyd a Hwsmonaeth Anifeiliaid.

Competitors WILL BE required to complete a simple multi-choice Animal Health and Husbandry Questionnaire (supplied by Wales YFC).

Gall cystadleuwyr ddefnyddio'r arddull 'positif' o roi rhesymau wrth farnu gwartheg godro.

Competitors may give 'positive' style reasons in the Dairy Section.



AMSERU

Caniateir 10 munud i aelodau i farnu pob gylch o stoc ac o leiaf 5 munud i baratoi eu rhesymau.

Caniateir hyd at 2 funud i gystadleuwyr i ddatgan eu rhesymau ynghylch pob cylch o stoc i'r Beirniad. Bydd cystadleuwyr sy'n mynd dros yr amser a ganiateir yn colli 2 farc am bob 15 eiliad neu ran o hynny. Tynnir y marciau o gyfanswm eu sgôr.

Bydd y Prif Stiward yn caniatáu amser priodol i ateb yr holiadur.

MARCIO

Barnu Stoc:

Gosod 4 cylch x 50	200
Rhesymau ynghylch 4 cylch x 50	200
Holiadur	100
Marciau fesul Cystadleuydd	500
Marciau fesul Tîm	<u>2000</u>

GWOBRAU

Dyfernir CWPAN COFFA TOM EVANS i'r tîm buddugol.

Dyfernir TLWS TRACEY JONES i'r unigolyn gorau.

CYFFREDINOL

Yn ystod y gystadleuaeth, ni chaniateir i gystadleuwyr gyfathrebu yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw un, ac eithrio Beirniad a Stiwardiaid. Diarddelir cystadleuwyr sy'n torri'r rheol.

Ni ellir defnyddio unrhyw bapurau na llenyddiaeth yn ystod y gystadleuaeth.

Rhaid i gystadleuwyr wisgo cotiau gwyn trwy gydol y gystadleuaeth.

Ni fydd CFFI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran cystadleuwyr, nac am drefniadau

TIMING

Competitors will be allowed 10 minutes to judge each ring of stock and at least 5 minutes for preparing reasons.

Competitors will be allowed up to 2 minutes for stating their Reasons on each ring of stock to the Judge. Competitors exceeding this time limit will incur penalties at the rate of 2 marks for each 15 seconds or part thereof. The marks to be deducted from their total score.

The Chief Steward will allocate an appropriate time for the questionnaire.

SCALE OF MARKS

Stockjudging:

Placing 4 rings x 50	200
Reasons 4 rings x 50	200
Questionnaire	100
Marks per Competitor	500
Marks Per Team	<u>2000</u>

AWARDS

The TOM EVANS MEMORIAL CUP will be awarded to the winning team.

The TRACEY JONES SHIELD will be awarded to the highest individual.

GENERAL

During the period of the competition, competitors must not communicate directly or indirectly with any person other than Judges and Stewards under penalty of disqualification.

No other papers or literature to be used for the duration of the competition.

Competitors to wear white coats for the duration of the competition.

Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors, nor for arrangements for accommodation.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

RHEOLAU 2016-2017 RULES

DIWRNOD GWAITH MAES | FIELD DAY



llety.

Mae penderfyniad y Beirniaid yn derfynol.

Mae CFFI Cymru yn cadw'r hawl i newid neu ddiddymu unrhyw un o'r rheolau uchod.

SYLWER:

Bydd cyfanswm marciau'r Diwrnod Gwaith Maes yn cyfrif tuag at Dlws y Western Mail. Bydd marciau'r gystadleuaeth hon yn cyfrif tuag at Dlws Iau Beynon Thomas.

The Judges decision is final.

Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.

NOTE:

The overall marks in the Field Day will carry points towards the Western Mail Trophy. This competition will carry points towards the Beynon Thomas Junior Trophy.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

RHEOLAU 2016-2017 RULES

DIWRNOD GWAITH MAES | FIELD DAY



**CYSTADLEUAETH STOCMON Y FLWYDDYN (HŶN)
WALES YFC STOCKMAN OF THE YEAR COMPETITION (SENIOR)**

LLEOLIAD

Cynhelir y Rownd Derfynol ar Faes Sioe Môn ar 29 Ebrill 2017.

VENUE

The Final will be held at the Ynys Mon Showground on the 29th April, 2017.

CYNRYCHIOLAETH

Gall un tîm o bedwar o bob sir gystadlu yn rownd derfynol Cymru.

REPRESENTATION

Counties may enter one team of four members for the Wales final.

CYMHWYSTRA

Bydd rhaid i gystadleuwyr fod yn 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2016 ac yn aelodau llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI.

ELIGIBILITY

Competitors must be 26 years or under on 1st September 2016 and full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

Competitors will be required to show their membership cards.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

EILYDDION

Os bydd cystadleuydd sydd wedi cyrraedd y Rownd Derfynol yn gorfod tynnu'n ôl o'r gystadleuaeth, yna bydd y cystadleuydd yn y safle nesaf (sy'n gysylltiedig â FfCCFFI) yn cynrychioli Cymru.

SUBSTITUTION

If the competitor going through to the National Final has to withdraw from the competition, then the next highest placed competitor (affiliated to NFYFC) will represent Wales.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

RHEOLAU 2016-2017 RULES

DIWRNOD GWAITH MAES | FIELD DAY



TREFN

Bydd angen i gystadleuwyr farnu pedwar cylch o stoc (4 o Wartheg Godro, 4 o Wartheg Tewion, 4 o Wŷn Tewion a 4 o Foch Tewion).

Bydd pob aelod yn cyflwyno'i resymau ynghylch y pedwar cylch o stoc.

Caiff yr anifeiliaid ym mhob cylch eu dynodi yn A, B, X, Y.

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ateb holiadur amlddewis syml ynghylch Iechyd a Hwsmonaeth Anifeiliaid (darperir yr holiadur gan CFFI Cymru).

Gall cystadleuwyr ddefnyddio'r arddull 'positif' o roi rhesymau wrth farnu gwartheg godro.

AMSERU

Caniateir 10 munud i aelodau i farnu pob gylch o stoc ac o leiaf 5 munud i baratoi eu rhesymau.

Caniateir hyd at 2 funud i gystadleuwyr i ddatgan eu rhesymau ynghylch pob cylch o stoc i'r Beirniad. Bydd cystadleuwyr sy'n mynd dros yr amser a ganiateir yn colli 2 farc am bob 15 eiliad neu ran o hynny. Tynnir y marciau o gyfanswm eu sgôr.

Bydd y Prif Stiward yn caniatáu amser priodol i ateb yr holiadur.

MARCIO

Gosod 4 cylch x 50	200
Rhesymau ynghylch 4 cylch x 50	200
Iechyd a Hwsmonaeth Anifeiliaid	100
Marciau fesul cystadleuydd	500
Cyfanswm fesul tîm	<u>2000</u>

GWOBRAU - Dyfernir CERFLUN BACH ELWYN GRIFFITHS i'r tîm buddugol.

Dyfernir TLWS CASTELLIOR i'r unigolyn gorau.

PROCEDURE

Competitors will be required to judge four rings of stock (4 Dairy Cows, 4 Butchers Cattle, 4 4 x Butchers Lambs and 4 Butchers Pigs).

Each member will give reasons on all four rings of stock.

Animals in each ring will be designated A, B, X, Y.

Competitors WILL BE required to complete a simple multi-choice Animal Health and Husbandry Questionnaire (supplied by Wales YFC).

Competitors may give 'positive' style reasons in the Dairy Section.

TIMING

Competitors will be allowed 10 minutes to judge each ring of stock and at least 5 minutes for preparing reasons.

Competitors will be allowed up to 2 minutes for stating their Reasons on each ring of stock to the Judge. Competitors exceeding this time limit will incur penalties at the rate of 2 marks for each 15 seconds or part thereof. The marks to be deducted from their total score.

The Chief Steward will allocate an appropriate time for the questionnaire.

SCALE OF MARKS

Placing 4 rings x 50	200
Reasons 4 rings x 50	200
Animal Health & Husbandry	100
Total per competitor	500
Total per team	<u>2000</u>

AWARDS - The ELWYN GRIFFITHS STATUETTE will be awarded to the winning team.

The CASTELLIOR TROPHY will be awarded to the highest individual.



CYFFREDINOL

Yn ystod y gystadleuaeth, ni chaniateir i gystadleuwyr gyfathrebu yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw un, ac eithrio Beirniaid a Stiwardiaid. Diarddelir cystadleuwyr sy'n torri'r rheol.

Ni ellir defnyddio unrhyw bapurau na llenyddiaeth yn ystod y gystadleuaeth.

Rhaid i gystadleuwyr wisgo cotiau gwyn trwy gydol y gystadleuaeth.

Ni fydd CFFI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran cystadleuwyr, nac am drefniadau llety.

Mae penderfyniad y Beirniaid yn derfynol.

Mae CFFI Cymru yn cadw'r hawl i newid neu ddiddymu unrhyw un o'r rheolau uchod.

SYLWER:

Bydd cyfanswm marciau'r Diwrnod Gwaith Maes yn cyfrif tuag at Dlws y Western Mail.

GENERAL

During the period of the competition, competitors must not communicate directly or indirectly with any person other than Judges and Stewards under penalty of disqualification.

No other papers or literature to be used for the duration of the competition.

Competitors to wear white coats for the duration of the competition.

Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors, nor for arrangements for accommodation.

The Judges decision is final.

Wales YFC reserves the right to amend or cancel any of the foregoing rules.

NOTE:

The overall marks in the Field Day will carry points towards the Western Mail Trophy.

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

RHEOLAU 2016-2017 RULES

DIWRNOD GWAITH MAES | FIELD DAY



**CODI FFENS
FENCE ERECTING**

LLEOLIAD

Cynhelir y Rownd Derfynol ar Faes Sioe Môn ar 29 Ebrill 2017.

VENUE

The Final will be held at the Ynys Mon Showground on the 29th April, 2017.

CYNYRCHIOLAETH

Gall un tîm o dri o bob sir gystadlu yn rownd derfynol Cymru.

REPRESENTATION

Counties may enter one team of three members for the Wales final.

MEINI PRAWF CYMHWYSTRA

Bydd tîm yn cynnwys tri aelod, a bydd un ohonynt yn 21 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2016 a dau ohonynt yn 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2016. Dylent oll fod yn aelodau llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI.

ELIGIBILITY

A team shall consist of three members, one member shall be 21 years of age or under on the 1st September, 2016 and two members shall be 26 years of age or under on the 1st September 2016 and full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

Competitors will be required to show their membership cards.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

EILYDDION

Os na fydd dau neu ragor aelodau'r tîm gwreiddiol yn gallu cystadlu mewn rowndiau dilynol, bydd y tîm yn y safle nesaf yn y gystadleuaeth (sy'n gysylltiedig â FfCCFFI) yn cynrychioli Cymru.

SUBSTITUTION

If two or more of the original team are unable to go forward to the NFYFC final, then the next highest placed team (affiliated to NFYFC) will represent Wales.



IECHYD A DIOGELWCH – GWAITH DARLLEN HANFODOL/CAMAU GWEITHREDU I CYSTADLEUWYR

Mae'n rhaid i bob cystadleuydd ddarllen canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch ffensio a dilyn yr argymhellion ynghylch arferion gweithio diogel a dillad ac offer amddiffynnol. Gellir llwytho canllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 'Fencing' (AFAG104) i lawr o wefan FfCCFFI neu CFFI Cymru.

HEALTH & SAFETY – ESSENTIAL READING/ACTION FOR ALL COMPETITORS

It is essential that all competitors read the Health and Safety Executive's guidance paper concerning fencing and note is taken of the safe working practices and protective clothing equipment that is recommended. The Health and Safety Executive guidance paper 'Fencing' (AFAG104) can be downloaded from the NFYFC or Wales YFC website.

TREFN

Bydd angen i'r tîm godi ffens derfyn gwrth-stoc, gan ddefnyddio'r deunyddiau a ddarperir (yn unol â'r hyn a welir yn y diagram). Mae'r terfyn yn 22 metr mewn llinell syth. Bydd y ffens yn ffens pyst a weiren netin â 2 gainc o weiren bigog uwchlaw'r weiren netin ac 1 gainc o weiren blaen islaw'r weiren netin.

Mae angen i'r tîm baratoi asesiad risg ysgrifenedig / datganiad ynghylch y dull o weithio a roddir i'r Prif Stiward ar ddiwrnod y gystadleuaeth – cyn i'r gystadleuaeth ddechrau. *Os na wnewch gyflwyno asesiad risg / datganiad ysgrifenedig ynghylch y dull o weithio, fe gewch eich diarddel yn ddi-oed, a byth methu â chydymffurfio ag asesiadau risg neu weithio'n annïogel hefyd yn arwain at eich diarddel yn ddi-oed.*

Mae templed asesiad risg ar gael o Ganolfan CFFI Cymru.

Rhaid i'r weiren blaen a'r weiren bigog gael eu tynhau a'u clymu â chwlwm ar bob pen.

Bydd rhaid gwneud yr uniad yn y wifren â llaw (dim 'gripples' / 'crimps') ble dangosir hynny ar y diagram.

Dylid gosod polyn tynnu â pholyn cynnal croeslinol ('strut') ym mhob pen o'r ffens (rhaid i'r polion cynnal fod â phlât gwthio i atal symudiadau, a dylid defnyddio bloc uchaf a bloc isaf i ddal y polion tynnu yn eu lle).

Dim ond deunyddiau a gyflenwir gan y trefnwyr y dylid eu defnyddio yn Rownd Derfynol CFFI Cymru (gweler y rhestr o ddeunyddiau isod).

Gall y cystadleuwyr ddefnyddio offer llaw yn unig, a bydd rhaid i'r timau eu hunain ddarparu'r rhain. Ni chaniateir offer trydanol na llifiau cadwyn.

PROCEDURE

The team will be required to erect a stock proof boundary fence, using the materials provided (as illustrated in the diagram). The boundary is 22 metres in a straight line. The fence shall be a post and netting fence with 2 strands of barbed wire above the netting and 1 strand of plain wire below the netting.

The team are required to prepare a written risk assessment / method statement which is to be handed to the Chief Steward on the day of the competition - prior to the competition start. *Failure to provide a written risk assessment / method statement will result in immediate disqualification and failure to comply with the risk assessments or working unsafely will also result in immediate disqualification.*

A risk assessment template is available from the Wales YFC Centre.

The plain wire and barbed wire to be tensioned and tied with a knot at both ends.

A join in the netting must be made by hand (no gripples / crimps) where shown on the diagram.

At both ends of the fence there should be a strainer with diagonal strut (struts secured using a thrust plate, and both strainers secured using breast blocks and foot blocks).

Only materials supplied by the organisers are to be used for Wales YFC Final (see list of materials below).

Only hand tools will be allowed and the teams themselves must provide these. No powered tools or chain saws are allowed.



Rhaid i'r holl gelfi a'r offer a ddefnyddir fod yn addas i'w pwrpas ac mewn cyflwr da, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a dylai aelodau'r tîm eu defnyddio'n ddiogel bob amser. Bydd gan feirniaid hawl i atal cystadleuwyr rhag defnyddio unrhyw offer, os byddant yn credu ei fod yn anniogel i'w ddefnyddio neu'n cael ei ddefnyddio mewn dull anniogel.

Ni chaniateir i gystadleuwyr fyrhau unrhyw byst fertigol.

Mae'r beirniad yn cadw'r hawl i archwilio unrhyw bolyn cynnal ar ôl gorffen y dasg.

Bydd angen i bob tîm dynnu eu ffens i lawr ar ôl y Seremoni Wobrwyo. Byddir yn diarddel unrhyw dîm na fydd yn cydymffurfio â'r rheol hon.

Clirio'r tir - bydd rhaid i dimau glirio unrhyw sbwriel ac ni ddylid gadael unrhyw dameidiau o weiren ac ati yn nhyllau'r polion. Darperir biniau at y diben hwn. Bydd pridd ar gael i adfer cyflwr y tir.

Rhestr o Eitemau a ddarperir gan CFFI Cymru:

2 bolyn crwn 7', diamedr 5" - 6" (polion tynnu)
2 bolyn crwn 8', diamedr 3" - 4" (polion cynnal croeslinol)
7 polyn crwm 5'6", diamedr 3" - 4" (polion canol)
1x 12' X 3" X 4" o bren (platiau gwthio, blociau uchaf a blociau isaf)
25m o weiren netin dur meddal C8/80/15
25m o weiren blaen dur meddal
50m o weiren bigog dur meddal
20 hoelen 5"
Styffylau

AMSERU

Caniateir 2 awr 15 munud i orffen y gwaith.

Cosbau Amser

Cosbau amser - anogir y timau i orffen y dasg, ond byddant yn colli un **(1)** pwynt am bob 2 funud dros yr amser a ganiateir.

MARCIO

Polion tynnu
(yn cynnwys gwaith tan y ddaear) 50
Gosod polion cynnal
(yn cynnwys gwaith tan y ddaear) 50

All tools and equipment used must be fit for purpose and be in good condition, well maintained and safely operated by members of the team at all times. Judges hold the power to stop the use of tool/piece of equipment if, in their view, it is not safe to use or is being handled/used in an unsafe manner.

Competitors are not allowed to shorten any of the vertical posts.

The Judge reserves the right to inspect any strut following completion of the task.

All teams are required to dismantle their fence after the Presentation of Awards. Any team not complying with this ruling will be disqualified.

Clearing the ground - teams are required to clear away all debris and any off-cuts of wire etc should not be put down the postholes. Receptacles will be provided for this purpose. Soil will be available to make the ground good.

List of Items to be provided by Wales YFC:

2 x 7' round posts, 5" - 6" diameter (strainers)
2 x 8' round posts, 3" - 4" diameter (diagonal struts)
7 x 5'6" round posts, 3" - 4" diameter (intermediates)
1x 12' X 3" X 4" wood (thrust plates, breast and foot blocks)
25m x mild steel stock netting C8/80/15
25m x mild steel plain wire
50m x mild steel barbed wire
20 x 5" nails
Staples

TIMING

2 hours 15 minutes are allowed for completion of the task.

Time penalties

Teams will be encouraged to complete the task but will lose one **(1)** point every 2 minutes over the allocated time.

SCALE OF MARKS

Straining posts (inc underground works) 50
Strut fixing (inc underground works) 50
Intermediate post line and height 40
Fixing and tensioning of netting 30



Llinell ac uchder y pyst canol	40	Join in netting	20
Gosod a thynhau'r weiren netin	30	Fixing and tensioning of barbed wire	20
Uniad yn y netin	20	Fixing and tensioning of plain wire	10
Gosod a thynhau'r weiren bigog	20	Overall neatness of finished job	25
Gosod a thynhau'r weiren blaen	10	Written risk assessment	5
Taclusrwydd cyffredinol y gwaith gorffenedig	25	TOTAL	250
Asesiad risgiau ysgrifenedig	5		

CYFANSWM 250

GWOBRAU – Cyflwynir TLWS BRIAN LLEWELLYN i'r tîm buddugol.

AWARDS - The BRIAN LLEWELLYN TROPHY will be awarded to the winning team.

CYFFREDINOL - Ni fydd CFFI Cymru yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran cystadleuwyr nac am drefniadau llety.

GENERAL - Wales YFC will not be responsible for any expenses incurred by competitors, nor for arrangements for accommodation.

Mae penderfyniad y Beirniaid yn derfynol.

The Judges decision is final.


Mae CFFI Cymru yn cadw'r hawl i newid neu ddi-ddymu unrhyw un o'r rheolau uchod.

Wales YFC reserve the right to amend or cancel any of the foregoing rules.

SYLWER: Bydd marciau'r gystadleuaeth hon yn cyfrif at Dlws y Western Mail

NOTE: This competition will carry points towards the Western Mail Trophy.

***Nid yw'r darlun hwn wrth raddfa a chynnig enghraifft yw'r unig fwrriad
Rhaid i'r cystadleuwyr benderfynu faint o le sydd rhwng y polion***



***Diagram is not to scale and is for illustrative purposes only
All spacing's to be determined by the competitors***

**MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU
WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS**

RHEOLAU 2016-2017 RULES

DIWRNOD GWAITH MAES | FIELD DAY



**EFFICIENCY WITH SAFETY INCORPORATING AN ATV ELEMENT
FFEITHLONRWYDD Â DIOGELWCH YN CYNNWYS ELFEN ATV**

LLEOLIAD

Cynhelir y Rownd Derfynol ar Faes Sioe Môn ar 29 Ebrill 2017.

VENUE

The Final will be held at the Ynys Mon Showground on the 29th April, 2017.

CYNYRCHIOLAETH

Gall un tîm o bedwar o bob sir gystadlu yn rownd derfynol Cymru.

REPRESENTATION

Counties may enter one team of four members for the Wales final.

MEINI PRAWF CYMHWYSTRA

Bydd tîm yn cynnwys pedwar aelod, rhaid i'r pedwar fod 26 mlwydd oed neu'n iau ar 1 Medi 2016. Dylent oll fod yn aelodau llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI.

ELIGIBILITY

A team shall consist of four members, all who must be 26 years of age or under on the 1st September 2016 and full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC.

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth.

Competitors will be required to show their membership cards.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth dilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.

EILYDDION

Os na fydd dau neu ragor aelodau'r tîm gwreiddiol yn gallu cystadlu mewn rowndiau dilynol, bydd y tîm yn y safle nesaf yn y gystadleuaeth (sy'n gysylltiedig â FfCCFFI) yn cynrychioli Cymru.

SUBSTITUTION

If two or more of the original team are unable to go forward to the NFYFC final, then the next highest placed team (affiliated to NFYFC) will represent Wales.

TYSTYSGRIFAU / TRWYDDEDAU SY'N OFYNNOL

Trin a Thrafod Tractor

Rhaid i gystadleuwyr sy'n defnyddio tractorau feddu ar drwydded yrru o'r Deyrnas Unedig. Rhaid i'r drwydded ddangos hawl llawn i ddefnyddio cerbyd amaethyddol (categori F).

CERTIFICATES/LICENCES REQUIRED

Tractor Handling:

A UK Driving Licence must be held by competitors operating tractors. The licence must show full entitlement for the agricultural vehicle category (F).

Trin a thrafod ATV:

Rhaid i'r cystadleuydd sy'n gwneud y dasg ATV fod wedi cael hyfforddiant digonol. Yn rownd derfynol CFFI Cymru, bydd rhaid dangos tystysgrif medrusrwydd sy'n brawf o hyfforddiant digonol i ddefnyddio ATVs. Rhaid rhoi copi o'r dystysgrif i

ATV Handling:

Adequate training must have been completed by the competitor who will carry out the ATV task. At the Wales YFC final a certificate of competence to show 'adequate training' in ATV Handling must be produced. A copy of the certificate must be handed to the judges on the day of the



feirniaid y gystadleuaeth ar ddiwrnod pob rownd o'r gystadleuaeth. Os na wneir hyn, caiff y tîm ei ddiarddel ac ni chaiff gystadlu.

Mae Tystysgrif Medrusrwydd defnyddio ATVs, a ddyroddwyd gan City and Guilds NPTC, yn dystiolaeth sy'n rhagori ar y gofynion am hyfforddiant digonol. Fodd bynnag, derbynnir tystysgrifau gan ddarparwyr hyfforddiant eraill hefyd. Y dystysgrif fwyaf sylfaenol a dderbynnir yw EASI ('European All-Terrain Vehicle Safety Institute'), sydd ar gael gan y rhan fwyaf o gwmnïau cyfrifol sy'n gwerthu ATVs. Rhaid nodi mai hyfforddiant rhagarweiniol sylfaenol gan werthwyr ATVs yw tystysgrif EASI - cwrs byr i ddefnyddwyr sydd wedi'i gynllunio i'w cynorthwyo i ddod yn gyfarwydd â'r peiriant a'r dull o'i ddefnyddio, yn cynnwys elfennau diogelwch. Er ei fod yn hyfforddiant digonol, nid yw cystal â'r math o hyfforddiant a gynigir gan gyrsiau City and Guilds.

[Yn unol â Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith (PUWER) 1998, mae'r canlynol yn ofyniad cyfreithiol:

Dylai'r sawl sy'n gyrru ATVs gael "hyfforddiant digonol", yn cynnwys hyfforddiant ynghylch defnyddio offer a dynnir neu unrhyw ategion. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cydnabod fod yr hyfforddiant a gynigir gan ddarparwyr hyfforddiant cydnabyddedig yn "ddigonol" at ddibenion PUWER].

Cymorth Cyntaf: Rhai i o leiaf un aelod o'r tîm feddu ar dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol gan gorff a gydnabyddir yn genedlaethol, naill ai y Groes Goch Brydeinig, Ambiwllans Sant Ioan, neu gorff cydnabyddedig eraill. Ni ddylai'r dystysgrif fod yn fwy na 3 blwydd oed. Rhaid rhoi copi o'r dystysgrif i feirniaid y gystadleuaeth ar ddiwrnod pob rownd o'r gystadleuaeth.

OFFER

**1 X Tractor â llwythwr
(oddeutu 100 mn â bwced ar y llwythwr,
addas ar gyfer tasg 1)**

**1 x Tractor
(oddeutu 150 mn, addas ar gyfer tasg 2)**

**1 x Tractor
(oddeutu 100 mn, addas ar gyfer tasg 3)**

competition. Failure to provide this will result in the team being disqualified and not allowed to compete.

A Certificate of Competence for ATV's, issued by City & Guilds NPTC is more than acceptable evidence of 'adequate training'. However, a certificate issued by another training provider will also be accepted. The most basic level of certificate which will be accepted is called an EASI (European All-Terrain Vehicle Safety Institute) certificate; which is available from most reputable ATV dealers. It should be noted that the EASI certificate is very much a dealer short induction course - a basic operators course designed to familiarise the operator with all the controls and operating procedures, which includes elements of safety. Whilst it ticks the box of 'adequate training', it should not be viewed as a replacement for a City & Guilds type course.

[Under the Provision and Use of Work Equipment Regulations 1998 (PUWER) there is a legal requirement that "adequate training", including the use of any towed equipment or attachments, be undertaken by those riding ATV's. The Health and Safety Executive (HSE) regards training provided by recognised training providers as "adequate" for the purposes of PUWER].

First Aid: At least one member of the team must hold a current first aid certificate of either the British Red Cross, St John Ambulance or an alternative nationally recognised body. The certificate must be no more than 3 years old. A copy of the certificate must be handed to the competition judges on the day of each round of the competition.

EQUIPMENT

**1 x Loader tractor
(approx 100 hp with attached bucket suitable
for task 1)**

**1 x Tractor
(approx 150 hp suitable for task 2)**

**1 x Tractor
(approx 100 hp suitable for task 3)**



1 x Trelar tipio
(oddeutu 10 – 12 tonnell fetrig, addas ar gyfer tasg 1)

1 x Chwalwr Gwrtaith

1 x ATV a Threlar
(ATV o'r math yr eisteddir ar ei gefn)

Gall y manylebau newid, yn dibynnu ar y peiriannau fydd ar gael yn rownd derfynol CFFI Cymru.

TREFN

Bydd pob tîm yn apwyntio arweinydd a fydd yn gweithredu fel fforman. Yn ogystal â'i (d)dyletswyddau fel fforman, bydd rhaid iddi / iddo wneud un o'r tasgau.

Rhaid i gystadleuwyr ddarparu eu hoffer eu hunain. Rhaid dychwelyd y peiriannau i'w safleoedd gwreiddiol ar ôl gorffen bob tasg.

TASG 1

Bydd yn ofynnol i Aelod o'r Tîm gynnal archwiliadau cynnal a chadw a diogelwch dyddiol ar dractor â llwythwr sydd â bwced a'r trelar tipio cyn i'r dasg gychwyn. Bydd y cystadleuydd yn gwneud asesiad risg llafar gyda'r beirniad o'r dasg y bydd yn ei gwneud.

Rhaid i'r aelod fachur bwced wrth y llwythwr a llwytho'r trelar tipio. Rhaid codi dau lond bwced o ddeunydd balast i mewn i'r trelar. Ar ôl llwytho'r trelar, bachwch y tractor wrth y trelar a gyrrwch am bellter yn unol â chyfarwyddiadau'r Beirniad. Dylai'r pellter fod rhwng 100 a 200 metr fwy neu lai i gynrychioli gyrru ar ffordd, ac nid yw'n cynnwys tasgau symud penodol. Tipiwch gynnwys y trelar a dychwelwch y tractor a'r trelar i'w safle gwreiddiol. Dadfachwch y bwced. (Yn rowndiau Sirol a Rhanbarthol, gellid hwyluso hyn trwy efelychu llwytho a thipio'r balast)

TASG 2

Bydd yn ofynnol i aelod o'r tîm gynnal archwiliadau dyddiol ar dractor a chwalwr gwrtaith. Bydd y cystadleuydd yn gwneud asesiad risg llafar gyda'r beirniad o'r dasg y bydd yn ei gwneud. Yn cynnwys PPE priodol ar gyfer y dasg. Bachwch y chwalwr gwrtaith wrth y tractor, graddnodwch y chwalwr yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, ac ewch â'r

